

Lefel 4/5

Arweinyddiaeth a Rheolaeth o Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae ein cymhwyster wedi'i gynllunio ar gyfer y rhai sydd mewn rôl arwain neu reoli yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwch yn datblygu ac yn dangos eich sgiliau fel rhan o'ch rôl, a byddwch wedi cwblhau ein cymhwyster Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth Lefel 4 ymlaen llaw.

Manteision i'r dysgwr

- Hyfforddwyr profiadol sydd â'r arbenigedd i ddarparu hyfforddiant ar draws amrywiaeth o sectorau
- Cymerwch reolaeth o'ch datblygiad personol a phroffesiynol
- Datblygu o fewn cyflogaeth neu symud ymlaen i astudiaethau pellach ar lefel uwch
- Ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol
- Mynediad at gyfoeth o adnoddau drwy Moodle, ein platfform dysgu ar-lein
- Cymorth personol wedi'i deilwra un-i-un

Manteision i'r cyflogwr

- Hyfforddiant o safon gydag asesiad Estyn o ardderchog/da
- Cofrestru staff gyda Gofal Cymdeithasol Cymru
- Amrywiaeth o unedau dewisol i deilwra'r cymhwyster i anghenion eich busnes
- Hyrwyddo diwylliant o ddysgu a datblygu sefydliadol

THE UK'S TOP 5 BEST LARGE COMPANIES TO WORK FOR 2025
EDUCATION & TRAINING'S #1 BEST ORGANISATION TO WORK FOR 2025
WORLD CLASS TO WORK FOR 2025
INVESTORS IN PEOPLE® We invest in people Standard
City & Guilds A City & Guilds Group Business
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Sgiliau Hanfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i godi lefelau Sgiliau Hanfodol ledled Cymru. Mae cymwysterau Cyfathrebu, Llythrennedd Digidol a Chymhwyso Rhif yn elfen annatod o'r fframweithiau prentisiaethau a ariennir.

Fel arfer, caiff y rhain eu cyflwyno drwy weithdai yn un o'n canolfannau a byddant yn cael eu trefnu ymhell ymlaen llaw. Os ydych wedi cwblhau Sgiliau Hanfodol yn flaenorol neu'n gallu darparu tystiolaeth addas, megis tystysgrifau TGAU neu gymwysterau tebyg, efallai y cewch eich eithrio rhag cwblhau'r elfen hon o'r cymhwyster.

Sgiliau Hanfodol	
Bydd angen i ddysgwyr cwblhau:	
Cymhwyso Rhif	Lefel 2
Cyfathrebu	Lefel 2
Llythrennedd Digidol	Lefel 2

Trosolwg o'r Cymhwyster

Byddwch yn astudio amrywiaeth o unedau. Byddwch yn cael eich asesu yn allanol. I gyflawni'r cymhwyster hwn, rhaid i chi gwblhau:

- Sesiwn sefydlu dwy awr
- Unedau Gorfodol Grŵp A (20 credyd)
- Unedau Gorfodol Grŵp B (70 credyd)
- Unedau Opsiynol (30 credyd)
- Cyfanswm o 120 credyd
- Portffolio o dystiolaeth
- Prosiect busnes
- Trafodaeth broffesiynol
- Mae ymweliadau misol gan diwtor yn ofynnol, a gellir darparu ymweliadau neu gymorth ychwanegol os oes angen
- Gall sesiynau gyda'r tiwtor bara hyd at ddwy awr gan fod y tasgau asesu'n cael eu goruchwylio, a rhaid caniatáu digon o amser i'w cwblhau'n llawn
- Bydd y cymhwyster yn cymryd 24 mis i'w gwblhau (mae hwn yn gymhwyster cyfun â'r cymhwyster Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth Lefel 4.

Gall dysgwyr symud yn syth ymlaen i'r cymhwyster Lefel 5 os oes ganddynt y cymhwyster 'Camu i Fyny i Reolaeth', gan y gellir ei ddefnyddio fel 'dysgu blaenorol cydnabyddedig').

Unedau Hanfodol Grŵp A

Teitl Uned	Gwerth Credyd	Oriau Dan Arweiniad
Arwain a Rheoli Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn/Plentyn	20	60
Arwain a Rheoli Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn/Plentyn drwy Eiriolaeth Annibynnol	20	60

Unedau Hanfodol Grŵp B

Teitl Uned	Gwerth Credyd	Oriau Dan Arweiniad
Arwain a Rheoli Perfformiad Tîm Effeithiol	18	65
Arwain a Rheoli Ansawdd Darpariaeth Gwasanaethau i Fodloni Gofynion Deddfwriaethol, Rheoleiddiol a Sefydliadol	16	70
Ymarfer Proffesiynol	12	50
Arwain a Rheoli Ymarfer sy'n Hyrwyddo Diogelu Unigolion	12	60
Arwain a Rheoli Iechyd, Diogelwch a Sicrwydd yn y Gweithle	12	60

Unedau Opsiynol

Mae enghreifftiau o'r unedau opsiynol sydd ar gael isod.

Teitl Uned	Gwerth Credyd	Oriau Dan Arweiniad
Arwain a Rheoli Darpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal	31	45
Arwain a Rheoli Darpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Anabl	30	50
Arwain a Rheoli Cymorth i Leihau Arferion Cyfyngol drwy Ddulliau Cadarnhaol o Gefnogi Ymddygiad	21	40
Arwain a Rheoli Gwasanaethau ar gyfer Unigolion sy'n Byw gydag Afiechyd Meddwl	31	40
Arwain a Rheoli Cymorth ar gyfer Unigolion ag Anabledd Dysgu a/neu Awtistiaeth	34	40

Dilyniant

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster hwn, gallech symud ymlaen i:

- Gyfleoedd cyflogaeth bellach neu i barhau ag astudiaethau ar lefel uwch